OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 1985 (Cy. 195) (C. 84)

## ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Bwyta’n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (Cychwyn) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae’r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (“Mesur 2009”).

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 8 Awst 2013 adran 4 o Fesur 2009. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch bwyd a diod a ddarperir gan ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dwyn i rym ar 2 Medi 2013 adrannau 1 i 3 a 5 i 11 o Fesur 2009.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1985 (Cy. 195) (C. 84)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Bwyta’n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (Cychwyn) 2013

*Gwnaed* *7 Awst 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 12(3) o Fesur Bwyta’n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 (Cychwyn) 2013.

**Y diwrnod penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ddod i rym yw —

(a) 8 Awst 2013 ar gyfer adran 4; a

(b) 2 Medi 2013 ar gyfer adrannau 1 i 3 a 5 i 11.

*Carwyn Jones*

Prif Weinidog Cymru

7 Awst 2013

(**1**) 2009 mccc 3.